# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 239(v5)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl o dan Reol Sefydlog 25.15 ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019 – Gorchymyn Adran 109 yn ymwneud â Swyddogion Cofrestru Etholiadol

(15 munud)

**NDM7176** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 25.15 yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019.

Gosodwyd y Gorchymyn drafft a'r Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2019.

**Dogfen Ategol**
Gorchymyn Arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019

## 4 Cyfnod pleidleisio

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud o benderfyniad GIG Lloegr i gymeradwyo'r defnydd o Orkambi a Symkevi?

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golli 2763 o gleifion yn ddiweddar o'r rhestr aros ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg?

**Gofyn i'r Prif Weinidog:**

**Leanne Wood (Rhondda):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y goblygiadau i Gymru yn dilyn ymddiswyddiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 7 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

(5 munud)

**NDM7175** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 i 9,

b) Atodlen 1,

c) adrannau 10 i 28,

d) Atodlen 2,

e) adran 29,

f) Atodlen 3,

g) adrannau 30 i 41,

h) adran 1,

i) Teitl hir.

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru

(30 munud)

**NDM7174** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Awst 2019.

## 9 Dadl ar Ddeiseb P-05-854 - Gwneud Hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai

(60 munud)

**NDM7177** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-854 Gwneud Hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai' a gasglodd 5,654 o lofnodion

P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai

## 10 Dadl Plaid Cymru - Mynediad at Wasanaethau Iechyd

(30 munud)

**NDM7178** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder ynghylch y diffyg mynediad at wasanaethau meddygol sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu a deintyddiaeth y GIG, mewn sawl rhan o Gymru.

2. Yn galw am recriwtio a chadw staff meddygol ychwanegol i sicrhau mynediad priodol at wasanaethau iechyd ledled Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau gweithredu cadarnhaol sydd ar y gweill drwy Fodel Gofal Sylfaenol Cymru i wella mynediad pobl, ddydd a nos, at y gweithiwr proffesiynol a'r gwasanaeth cywir ar gyfer eu hanghenion penodol.

2. Yn nodi'r gwelliant amlwg yn lefelau recriwtio meddygon i'r rhaglen hyfforddiant arbenigol ar gyfer meddygon teulu eleni.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 -** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod dros 119,000 o gleifion yng Nghymru o dan ofal practisau meddygon teulu mewn perygl ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofal sylfaenol yn cael ei ariannu'n ddigonol drwy dderbyn o leiaf 10 y cant o gyllideb gyfan y GIG.

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi pryderon parhaus Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau gofal sylfaenol yn y dyfodol a chyhoeddi map gwres diweddaraf practisau meddygon teulu Cymru.

Cymdeithas Feddygol Prydain – map gwres practisau meddygon teulu Cymru Ebrill 2019

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 2, ar ôl 'ychwanegol' rhoi 'a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill'.

**Gwelliant 5 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad bon a brig o'r gwaith o gynllunio gweithlu yn y GIG yng Nghymru.

## 11 Dadl Plaid Cymru – Rotas Newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(30 munud)

**NDM7179 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gwrthwynebu penderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno rotas newydd a fydd yn ymestyn sifftiau staff nyrsio o fis Ionawr 2020.

2. Yn credu bod hwn yn gam niweidiol ac yn gam yn ôl – yn enwedig ar adeg pan fo mwy nag un o bob deg swydd nyrsio yn y Bwrdd Iechyd yn wag.

3. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod o dan fesurau arbennig dros y pedair blynedd diwethaf a'i fod felly o dan reolaeth uniongyrchol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthdroi'r penderfyniad a diogelu amodau gwaith nyrsys.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gwerthfawrogi gweithlu'r GIG a'n trefniadau gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

2. Yn nodi bod BIPBC yn parhau i ymgysylltu â'r staff nyrsio a'u hundebau llafur ynglŷn â newidiadau i rotas nyrsio.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnwys fel pwynt newydd ar ol pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach bod nifer y diwrnodau gwaith a gollir oherwydd straen a materion yn ymwneud ag iechyd meddwl o fewn y bwrdd iechyd wedi cynyddu 20 y cant ers 2014.

**Gwelliant 3 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 3, dileu 'dros y pedair blynedd diwethaf' a rhoi 'am dros bedair blynedd' yn ei le.

**Gwelliant 4 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi methu â rhwystro'r penderfyniad hwn rhag cael ei wneud.

**Gwelliant 5 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a byrddau iechyd eraill ledled Cymru yn ceisio osgoi Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 drwy ailddosbarthu patrymau gwaith.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

## 12 Cyfnod pleidleisio

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7171** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cofio a pharchu: pam y dylem ddiogelu cofebion rhyfel yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30/10/2019 i'w hateb ar 06/11/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**David Rees** *Aberafan*

**1** OAQ54632

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu swyddi gweithwyr dur Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**2** OAQ54622

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i wella cefnffordd yr A4042 yn Llanelen?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**3** OAQ54618

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am seilwaith cysylltedd digidol ar gyfer cymoedd de Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**4** OAQ54626

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**5** OAQ54613

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am barodrwydd cefnffyrdd cyn tywydd gwael posibl?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**6** OAQ54625

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Ngorllewin De Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**7** OAQ54636

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am seilwaith trafnidiaeth yng ngogledd Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**8** OAQ54629

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Trafnidiaeth Cymru i gynyddu capasiti teithwyr ar gyfer defnyddwyr rheilffyrdd yn Islwyn?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**9** OAQ54620

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am economi ardal Bae Abertawe?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**10** OAQ54633

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaeth TrawsCymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**11** OAQ54617

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**12** OAQ54641

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni Ewropeaidd ar gyfer sgiliau a chyflogaeth yn Ynys Mon?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**1** OAQ54630

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effeithiolrwydd y berthynas rhwng llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru ar Brexit?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**2** OAQ54619

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Brexit ar buro dŵr yfed?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**3** OAQ54631

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda diwydiant yng ngogledd Cymru yn dilyn cyhoeddi estyniad i Brexit tan 31 Ionawr 2020?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**4** OAQ54642

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am yr effaith y bydd oedi pellach i gytundeb Brexit yn ei chael ar Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**5** OAQ54639

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg ynghylch cyfranogiad parhaus myfyrwyr o Gymru yn y rhaglen Erasmus Plus ar ôl Brexit?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**6** OAQ54637

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch tracio troseddau trawsffiniol ar ôl Brexit?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**7** OAQ54635

**(e)**

Pa fesurau y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn eu cymryd cyn Brexit i ddiogelu economi Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**8** OAQ54615

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y cytundeb ymadael diweddaraf ar hawliau gweithwyr yng Nghymru?